

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Gobeithio eich bod i gyd wedi cael Nadolig diogel a heddychlon ac eich bod yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel gan obeithio y cawn i gyd flwyddyn Newydd dda a gwell. Yn sicr, roedd y Nadolig yn un tra wahanol i'r arfer i bawb.

Gan nad ydym mewn sefyllfa i fedru croesawu'r plant yn ôl i'r ysgol ar gychwyn y tymor, bydd trefniadau dysgu o bell yn weithredol drwy'r gweithgareddau amrywiol a gynigir gan yr athrawon drwy gyfrwng cyfrifon Hwb y plant ar Google Classroom. Er nad yw hon yn sefyllfa ddelfrydol i neb, rydym yn annog y disgyblion i roi cynnig ar rai o'r gweithgareddau. Cofiwch nid oes rhaid i'r plant ddefnyddio cyfrwng TGCh i gwblhau pob gweithgaredd, a gall rhain gael ei cwblhau ar bapur.

Rydym am roi cynnig i chi gasglu adnoddau/gweithgareddau ar ffurf copiau papur os ydych yn dymuno, a bydd y trefniadau ar gyfer casglu fel y nodir yn yr amserlen isod. **Os ydych yn dymuno derbyn adnoddau papur, bydd angen i chi fod wedi cysylltu gyda'r athro/awes ddosbarth cyn 10 o'r gloch bore Mawrth Ionawr y 5ed** er mwyn galluogi fod digon o amser i baratoi pecyn. Mae'r amserlen ar gyfer casglu fel a ganlyn. Byddwch yn gallu casglu gwaith o focs a leolir tu allan i ddrws y neuadd. Bydd y gwaith mewn ffolder, gyda enw eich plentyn ar y blaen. Gofynnwn yn garedig i chi gadw at yr amserlen, gan wisgo mwgwd neu orchudd wrth ddod ar dir yr ysgol.

Dosbarth/Class	Dyddiad / Date	Amser / Time
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	5.1.21	1.00-1.30
Mrs M. Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	5.1.21	1.40-2.10
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	5.1.21	2.20 - 2.50
Miss C. Darlington Bl.3&4 / Yr.3&4	6.1.21	9.30-10.00
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	6.1.21	10.10-10.40
Miss B Morris Bl.3&4 / Yr.3&4	6.1.21	10.50-11.20
Miss D.Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	6.1.21	11.30-12.00
Miss M.Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	6.1.21	12.30-1.00
Miss E. Richards Bl.1&2 / Yr.1&2	6.1.21	1.10-1.40
Miss L.Lewis Reception/Derbyn	6.1.21	1.50-2.20
Miss A.Morris Nursery / Reception	6.1.21	2.30-3.00

Unwaith y mae'r adnoddau wedi ei casglu, dylid ymadael a safle'r ysgol yn syth a dychwelyd adref. Diolch.

O ran sesiynau ar lein i'ch plentyn, cynnigir rhain yn ddyddiol. Bydd cyfle i'ch plentyn ymuno a sesiwn byw gyda'r athro/awes ddosbarth ar yr amseroedd a nodir isod. Bydd hefyd sesiwn whanaol a fydd wedi ei recordio fydd ar gael i'ch plentyn gael mynediad iddo drwy y cyfri Hwb, ar amser sydd yn gyfleus iddo ef/hi. Gweler yr amserlen isod ar gyfer sesiynau byw dyddiol.

Grwp blwyddyn / Age group	Amser sesiwn byw/Daily live session
Blwyddyn 3 a 4 / Year 3 & 4	9.00
Blwyddyn 5 a 6 / Year 5 & 6	9.30
Blwyddyn 1 a 2 / Year 1 & 2	10.00
Blwyddyn Derbyn / Reception	10.30
Meithrin / Nursery	11.00

Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl yr holl blant yn ôl i'r ysgol ar ddydd Llun yr 11eg, ond wrth gwrs, gall y sefyllfa yma newid. Byddwn yn eich diweddarau os y byddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth bellach ynglyn a'r sefyllfa.

Unwaith eto hoffwn eich hatgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddsbarth drwy e.bost am unrhyw ymholiad ynglyn a'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol. Diolch yn fawr, cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel.

Rhodri Jones

Pennaeth